Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 11eg Mehefin 2018

Presennol:Gadeirydd Elwyn Evans, Is Gadeirydd Steve Lewis, H.E. Thompson, Gareth Evans, Robert Jones, Wendy Whitby, Dylan Jarman, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Ymddiheuriad: Cyng. Eleri Puw, (cyneifio)
Datgan Diddordeb: Neb
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd.

1. Derbyniwyd cofnodion Mai a Cyfarfod Blynyddol a llofnodwyd gan y Cadeirydd Elwyn Evans
2. Cae Chwarae: Popeth yn iawn. Pasiwyd i dalu i Sean's Lawns am mis Mai.
3. Mynwentydd: Pasiwyd i dalu Sean's Lawns er nad oedd yn cymeryd y gofal a hoffem am glirio gwair y fynwent wedi ei dorri. Pasiwyd i dalu Glyn Ress & Son am agor bedd i lwch. Pasiwyd i dalu Gwynedd am allos y bin ysbwriel
4. Llwybrau: Dim
5. Cyngor Gwynedd: Cafwyd addewid torri gwair gwledig, er nad oedd y dyddiadau yn gywir.
6. Ciosg: dim yn foddhaol
7. Cyng. Beth Lawton: Adroddod bod Ailgylchu yn fler, biniau brown ddim yn cael eu casglu. Amddiffyn Bronglais – rhaid oedd llenwi y bylchau yn yr Bwrdd Iechyd. Mae prinder nyrsus a gofalwyr.
8. Carnifal Abergynolwyn: Derbyniwyd eitemau at y Tombola, diolch . Addewid help Cyng G Evans, Clerc a Paul Ducross cyn gynhorydd.
9. Rheoli Data: Nodwyd nad oedd genym cylch lythyr. Nid oeddym yn rhannu e.bost.
10. Gor yrru trwy pentref yn cael sylw pellach
11. Y Ganolfan: Pasiwyd i dalu y tâl blynyddol a diolch i bwyllgor y Ganolfan am le mor cyfleus
12. Apêl am Arian: Deryniwyd cais gan Dail Dysynni. Trafodwyd a phasiwyd i rhoi rhodd.
13. Llywodraeth Cymru: Derbyniwyd Hysbys Preifatrwydd Cronfa Ddata Cynghorau Cymuned
14. Rheolau Sefydlog: Pasiwyd i'r Cadeirydd, Is Gadeirydd a'r Clerc gael cyfarfod i fynd trwy y Rheolau Sefydlog. 4ydd Gorffennaf 7.30
15. Map Llanfihangel y Pennant: Pasiwyd i gael map i'r Cymuned ac hefyd i bob Cynghorwr a ddymunau a'r Clerc.
16. Gwahoddwyd ni i hedfan y" RED Ensign for Merchant Navy" ar y 3/9/18. Nid oes cyfleusterau.
17. Nodwyd y canlynol angen sylw – Top y Llyn, Arwydd ger y bont,tyfiant ochr y Llyn Mwyngil
18. Taliadau:

Sean's Lawns	gwair	252.00	siec 936
Gwynedd	bin	75.00	937
Glyn Rees & Son	agor i llwch	75.00	938
Y Ganolfan	llogi	176.00	939
Dail Dysynni	rhodd	100.00	940

Cartref Mari Jones: Dim

Cyfarfod Nesaf: Nos Lun 9fed Gorffennaf 2018 am 7 o'r gloch

Cyfarfod Brys
Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd nos Fawrth 26ain Mehefin am 7 o'r gloch.
Presennol: Cadeirydd Elwyn Evans, H Emrys Thompson, Wendy Whitby, a'r Clerc Eileen Jones
Ymddiheuriad: Eleri Puw a Steve Lewis

Trafodwyd ffurflen yr Archwiliad Allanol – Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a 2).
Trafodwyd pob cwestiwn ac atebwyd bob cwestiwn.